# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 6ed Tachwedd 2018
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor, Caredig Jones(Cadeirydd), Dewi Rattray, Ada Evans, Meic Francis, Dylan Edwards, Richard Davies, Meirion Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Rowland Jones, John Davies.

Rhoddwyd croeso i gyfarfod Mis Tachwedd gan y Cadeirydd Caredig Jones. Falch oedd clywed fod y Cyng. Rowland Jones adref o'r ysbyty ac fe ddymunodd y cynghorwyr i gyd wellhad buan iddo.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Hydref, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Dyland Edwards ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ann Tudor.

**18/1051 - MATERION YN CODI**

1. Nid oedd unrhyw materion yn codi

**18/1052 - LLYTHYRON**

1. Cais wrth Gewri Cymraeg Ysgol Llanilar yn ofyn am gymorth i brynu Banner Cymru ar gyfer yr ysgol. Cynigwyd I helpu gan y Cyng. Richard Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn. Estyniwyd llongyfarchiadau i'r plant ar eu gwaith fel Cewri Cymraeg.
2. Manylion digwyddiad am ddim ' Diwrnod Hawliau Gofalwyr'. Fydd y rhain yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau'r pentref.
3. Rhif mewn achos brys ar gyfer NHS Direct yw '111'.
4. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis, gan gynnwys y Bulletin nwyddion diweddaraf.

**18/1053 – CYNLLUNIO**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Tachwedd; £133.26. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray
2. £25.00 at gyfer torch pabi eleni a rhodd i'r British Legion Poppy Appeal. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis.
3. Cais oddiwrth Bwyllgor Milemiwm Llanilar yn ofyn am gymorth tuag at Yswiriant noson tan gwyllt y pentref. Nid oes cyfanswm wedi eu derbyn eto on mae'r cynghorwyr i gyd yn gytun ein fod yn fodlon I dalu eleni eto. Mi fydd trysorydd y Bwyllgor Mileniwm yn cadarnhau y cyfanswm er mwyn rhoi seic. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Richard Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Rowland Jones. Fe wnaeth y Cyng.Ann Tudor, Dewi Rattray, Dylan Edwards a John Davies datgan diddordeb.

**18/1054 – CYNLLUNIO.**

Nid oes unrhyw cais wedi dderbyn

**18/1055 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Nodwyd for darn o Llwybyr Beicio Ystwyth ger Felin Dyffryn wedi cael difrod wrth ochr yr afon. Ofynnwyd fod y Clerc yn anfon llythyr i'r adran Sir ynglŷn â hyn
2. Sul Y Cofion Dydd Sul 11 Tachwedd am 10.45yb. Fydd y gwasanaeth yn cael eu cynnal yn yr Eglwys eleni eto.
3. Peidiowch anghofio Noson Goleuo'r Goeden….Nos Sul 2 Rhagfyr yn sgwâr y Pentref…gyda mins pei a mulled wine i ddilyn!

Orffennwyd y cyfarfod am 9y.h.